



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-24-hydref-2022-html> (<https://llyw.cymru/is-bwyllgor-y-cabinet-ar-gostau-byw-cyfarfod-24-hydref-2022-html>) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

CYHOEDDIAD

Cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw: 24 Hydref 2022

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw ar 24 Hydref 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Rhagfyr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Rhagfyr 2022

Cynnwys

Yn bresennol (#section-111783)

Cyflwyniad gan bartner cymdeithasol: Sefydliad Bevan (#section-111785)

Cyflwyniad gan bartner cymdeithasol: CLILC (#section-111787)

Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS (Cadeirydd)
- Jane Hutt AS
- Rebecca Evans AS
- Mick Antoniw AS
- Vaughan Gething AS
- Julie Morgan AS

Mynychwyr allanol

- Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan
- Y Cynghorydd Anthony Hunt, CLILC
- Chris Llewellyn, Prif Weithredwr, CLILC
- Andy John, Archesgob Cymru
- Ruth Marks, Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ellie Harwood, Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
- Paul Slevin, Cadeirydd Gweithredol, Siambrau Cymru
- Abdul-Azim Ahmed, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol, Cyngor Mwslimiaid Cymru

Ymddiheuriadau

- Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLILC
- Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru

Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmonds, Cynghorydd Arbennig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Jo Salway, Cyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Liz Lalley, Cyfarwyddwr, Adran Ailgychwyn ac Adfer
- Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd
- Tom Smithson, Dirprwy Gyfarwyddwr Adferiad COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (Cofnodion)

Eitem 1: Cyflwyniad gan bartner cymdeithasol - Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad

Bevan a'i gwahodd i gyflwyno i'r grŵp.

1.2 Roedd y Sefydliad wedi cynnal arolwg o safonau byw yng Nghymru yn ystod mis Gorffennaf ond nododd fod y sefyllfa sylfaenol wedi dirywio'n sylweddol ers hynny.

1.3 Yn hanesyddol, roedd gan Gymru incwm aelwydydd canolrifol is o'i gymharu â gweddill y DU, gyda chyfran uwch o bobl yn dibynnu ar fudd-daliadau a phensiynau. Yn ogystal, dioddefodd Cymru o effeithlonrwydd ynni is yn y stoc tai, mwy o aelwydydd oddi ar y grid, mwy o gwsmeriaid ar fesuryddion rhagdalau, rhai o'r prisiau ynni uchaf yn y DU, ynghyd â chostau bwyd a thrafnidiaeth uwch mewn rhai ardaloedd gwledig. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu bod Cymru'n fwy agored i effeithiau'r argyfwng costau byw.

1.4 Roedd yr arolwg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn nodi aelwydydd mewn tri chategori eang, lle'r oedd gan 48% ddigon ar gyfer yr hanfodion a rhai pethau ychwanegol, roedd gan 32% ddim ond digon ar gyfer yr hanfodion, ac nid oedd gan 13% ddigon ar gyfer yr hanfodion ychydig o'r amser neu drwy'r amser. Roedd nifer y rhai heb ddigon ar gyfer yr hanfodion ac ond yn gallu fforddio hanfodion wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf.

1.5 Aelwydydd incwm isel oedd y rhai gafodd eu taro waethaf, gyda'r rhai oedd yn cael budd-daliadau, y rhai mewn llety rhent, teuluoedd unig riant, aelwydydd gyda niferoedd mwy o blant a phobl anabl yn dioddef fwyaf.

1.6 Roedd yn amlwg o'r arolwg fod pobl yn torri nôl ar wres, dillad a bwyd i oedolion, trafndiaeth, nwyddau ymolchi a chostau rhyngryd a digidol. Yn bryderus, roedd lleiafrif sylweddol wedi dweud eu bod wedi torri'n ôl ar eitemau i blant gan gynnwys bwyd, teganau a chewynnau, yn enwedig rhieni sengl a theuluoedd mwy.

1.7 O ran cynilion a dyled, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr naill ai nad oedd ganddynt unrhyw gynilion, neu eu bod wedi defnyddio eu holl gynilion neu

o leiaf rywfaint o'u cynilion i ymdopi. Roedd lefelau dyled wedi aros yn sefydlog, ond disgwylir i hyn godi dros y gaeaf.

1.8 Roedd pryderon cynyddol ymhlith tenantiaid preifat a chymdeithasol a rhai morgeseion am golli eu cartref oherwydd yr argyfwng.

1.9 Roedd hyn oll wedi arwain at effaith negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol pobl, gyda chyfran uwch o'r rhai oedd yn dioddef o anableddau yn cael eu heffeithio.

1.10 Roedd lefelau ymwybyddiaeth amrywiol o gynlluniau Llywodraeth Cymru wedi'u hadrodd, er bod y gwaith cadarnhaol a wnaed gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymddangos fel pe bai'n cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith rhentwyr cymdeithasol.

1.11 O ystyried bod y sefyllfa wedi gwaethgu'n sylweddol ers i'r arolwg gael ei gynnal, y disgwyl oedd nad oedd niferoedd cynyddol o bobl yn debygol o allu fforddio'r hanfodion, gan arwain at amddifadrwydd difrifol mewn rhai achosion, cynnydd posibl mewn digartrefedd, effeithiau ar iechyd meddwl a chorfforol a chynyddu'r galw ar wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.

1.12 Bu'r Pwyllgor yn trafod y camau cadarnhaol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hyd yma, gan nodi bod 185,000 o daliadau £200 o gynllun cymorth tanwydd y gaeaf, o blith amcangyfrif o 400,000 o aelwydydd cymwys, eisoes wedi'u gwneud.

1.13 Atgoffwyd y Pwyllgor o'r cyd-destun cyllidol eithriadol o heriol ar hyn o bryd, a oedd yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu gwneud yr holl bethau yr hoffai eu gwneud. Yr amcangyfrif oedd bod Cyllideb Llywodraeth Cymru hyd at £4 biliwn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod y llynedd, a'r flwyddyn nesaf byddai'n werth £1.5 biliwn yn llai.

1.14 Roedd Partneriaid Cymdeithasol yn cydnabod y dewisiadau cyllidol anodd

y byddai'n debygol y byddai'n rhaid i Weinidogion eu gwneud yn y Gyllideb sydd i ddod ac roeddent yn croesawu'r cynllun i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft cyn y Nadolig.

1.15 Diolchodd y Pwyllgor i Sefydliad Bevan am ei gyflwyniad.

Eitem 2: Cyflwyniad gan bartner cymdeithasol - Chris Llewellyn, Prif Weithredwr, CLILC

2.1 Yna symudodd y Pwyllgor ymlaen at gyflwyniad gan Chris Llewellyn, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

2.2 Adroddwyd bod CLILC wedi sefydlu grŵp costau byw i gydlynu gweithgarwch mewnol ar draws pob maes polisi. Roedd gwaith archwilio'n parhau i nodi darpariaeth ar draws Cynghorau ac i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu rhannu.

2.3 Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Rhwydwaith Swyddogion Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymru ac i ddatblygu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr ar gostau byw. Roedd tîm digidol CLILC yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i symleiddio mynediad at eu gwasanaethau drwy gefnogi dull "dim drws anghywir" i gael mynediad at gymorth. Roedd sicrhau bod pob cyswllt â'r cyngor yn cael ei gyfrif yn flaenoriaeth, ochr yn ochr â chodi ymwybyddiaeth o rannu data a chyfleoedd cydweithio.

2.4 Nododd y Pwyllgor fod Awdurdodau Lleol yn gweithio i gefnogi eu preswylwyr drwy bum prif faes: llywodraethu ac atebolrwydd; targedu a chydlynu cymorth; hygyrchedd cynhyrchion a gwasanaethau fforddiadwy; ymyrraeth gynnar ac atal argyfwng; a chodi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth.

2.5 Nodwyd bod cymorth uniongyrchol i bobl wedi cael ei groesawu ar draws yr Awdurdodau Lleol, ynghyd â chymorth ymarferol ar gyfer llesiant staff a gwirfoddolwyr.

2.6 Diolchodd y Pwyllgor i CLILC am ei chyflwyniad, gan groesawu'r cydweithio cadarnhaol rhwng yr holl bartneriaid.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (<https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru>) i gael rhagor o wybodaeth.